

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Cynllun gweithredu 2021–22

## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2021–22

**Cynulleidfa**

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau'r sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysg yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

**Trosolwg**

Dyma gynllun gweithredu Gweinidogion Cymru ar gyfer 2021–22, a baratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n esbonio sut byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn eu strategaeth, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r strategaeth a nodwyd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21*, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Strategaeth Cymraeg 2050.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

**Dogfennau cysylltiedig**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* (2017); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050* (2017); *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021* (2016)

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42457 ISBN digidol 978 1 80195 136 4

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

**Cefndir** **3**

**Rhai meysydd gwaith** **4**

## Cyflwyniad

Fe wnaethon ni gyhoeddi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, ym mis Gorffennaf 2017. Daeth *Rhaglen waith 2017–21* ar y cyd â hi ac mae'n cynnwys amcanion ar gyfer pedair blynedd cyntaf y strategaeth. Dyma sail ein cynlluniau gweithredu blynyddol ers hynny.

Mae Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn strategaeth *Cymraeg 2050* yn ystod pob blwyddyn ariannol. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer 2021–22.

Wrth gyhoeddi'r Cynllun hwn ar gyfer 2021-22, rhaid cydnabod na fydd hi'n flwyddyn arferol. Rydym yn tynnu tuag at derfyn tymor y Senedd hon, ac felly diwedd Rhaglen waith gyntaf *Cymraeg 2050*. Mae'r byd wedi newid cryn dipyn ers lansio *Cymraeg 2050*: mae'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd a COVID-19 wedi taro. Mae hyn oll yn cyflwyno amrywiol heriau i bolisi iaith ond hefyd nifer o gyfleoedd y byddwn ni am fanteisio arnynt yn y dyfodol. Mae'n amser felly i ni fynd ati i edrych yn ôl, gwerthuso a throi'n golygon tuag at dymor y Llywodraeth nesaf.

Un o'n tasgau cyntaf yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf fydd llunio ail Raglen Waith ar gyfer *Cymraeg 2050* a hynny ar gyfer tymor nesaf y Senedd, o 2021-2026. Yn unol â dymuniadau'r Cabinet, caiff y Rhaglen Waith ei drafftio mewn modd cydlynol gyda mewnbwn holl adrannau'r Llywodraeth. Byddwn ni'n ymgynghori'n helaeth ar y rhaglen ddrafft ac edrychwn ymlaen at glywed safbwyntiau amrywiol randdeiliaid ar ein cynlluniau.

Un peth sy'n sicr yw y byddwn ni, yn ystod 2021-22, yn parhau i weithredu yn ysbryd Cynllun Gweithredu 2020-21 gydol y flwyddyn a bydd y 10 Newid Trawsnewidiol[1] sydd wedi eu rhestru yn *Cymraeg 2050* yn parhau'n ganolog i'n gwaith.

[1] Gweler tudalen 12 *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*

## Cefndir

Mae gan *Cymraeg 2050* ddau brif darged fel a ganlyn:

- **Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.**
- **Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.**

Mae'r targedau hyn yn darparu naratif glir i'r Llywodraeth ac i randdeiliaid ar hyd a lled Cymru yn ogystal â chynnig cyd-destun i'r nod llesiant sy'n rhan o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: *'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*.

Mae *Cymraeg 2050* yn seiliedig ar dair thema strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon:

1. **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
2. **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**
3. **Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

Byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar yr egwyddorion hyn wrth i ni weithio ar draws meysydd polisi'r Llywodraeth gan dalu sylw penodol i:

- Pwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel y brif iaith sy'n cael ei siarad mewn cymunedau yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin.
- Mwy o gyfleoedd i blant ac oedolion ddysgu'r iaith ac i'r rheiny sydd eisoes yn dysgu neu'n siarad Cymraeg, i ddod i'w defnyddio'n rheolaidd waeth ble maent yn byw yng Nghymru.

Bydd Prosiect 2050, uned amlddisgyblaethol a sefydlwyd yn ystod 2020-21, yn parhau i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, y tu fewn a'r tu allan i'r Llywodraeth. Yr uned hon sy'n llywio'n gwaith ym maes technoleg, trosglwyddo'r Gymraeg rhwng rhieni a'u plant, gweithgarwch cymunedol ac eraill. Mae hefyd yn gweithio'n ehangach ag adrannau a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod mwy a mwy yn cofleidio ysbryd *Cymraeg 2050*, e.e. ein gwaith *Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog* ac y cyd ag Academi Wales, sy'n cynnwys nifer sylweddol o uwch arweinwyr y sector cyhoeddus.

# Rhai meysydd gwaith

## Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

### Y blynyddoedd cynnar

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Mudiad Meithrin i ehangu darpariaeth meithrin cyfrwng Cymraeg ledled y wlad er mwyn cynnig llwybr tuag at addysg cyfrwng Cymraeg i gynifer o blant ag sy'n bosibl.

Byddwn ni'n parhau i gefnogi ymdrechion i ddatblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar gan gynnwys:

- Hyfforddiant sydd wedi'i ddatblygu'n benodol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Prentisiaethau gofal plant y bydd y Mudiad Meithrin, mewn partneriaeth â'r Urdd a chyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn parhau i'w darparu.
- Cynllun prentisiaeth y Mudiad Meithrin sy'n gweithio'n benodol i recriwtio unigolion o amrywiol gefndiroedd.

### Addysg statudol

Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 i rym fis Rhagfyr y llynedd. Oherwydd y pandemig, maent wedi symud dyddiad cychwyn y cylch Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) nesaf o 1 Medi 2021 i Medi 2022.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi eu Cynlluniau a bydd y canlynol yn ganolog i'r gwaith hwnnw:

- Y Canllaw CSCA a gafodd ei gyhoeddi ar 27 Ionawr eleni.
- Canlyniad ymgynghoriad ar y canllaw diwygiedig anstatudol ar gategorïau ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 26 Mawrth.

Byddwn yn parhau i weithio gyda RhAG (Rhieni dros addysg Gymraeg) i gynnig cymorth i rieni di-Gymraeg y mae eu plant mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG wedi sefydlu gwefan Welsh4parents a fforwm help@welsh4parents.cymru er mwyn i rieni gael holi cwestiynau a thrafod eu pryderon am sgiliau Cymraeg eu plant a sut y gellir cynnal y sgiliau hynny hyd yn oed os nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref.

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda darparwyr allanol fel Estyn yn ogystal â'r BBC ac S4C i ddatblygu rhagor o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg anffurfiol er mwyn cynorthwyo rhieni i gefnogi eu plant.

Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn ategu ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg.

### Addysg ôl-orfodol

Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weithio gyda phartneriaid strategol a'r sector ôl-16 i osod seilwaith gadarn ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Eleni, byddwn yn dyrannu £0.81m yn ychwanegol i'r Coleg er mwyn galluogi'r holl golegau addysg bellach i gyflogi hyd at ddau diwtor llawn-amser ym meysydd blaenoriaeth iechyd a gofal, gofal blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cyhoeddus gan dargedu hyd at 2,000 o ddysgwyr newydd a ddaw o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn parhau i weithio i sicrhau ei bod yn gallu adeiladu ar y diddordeb cynyddol sy'n bodoli i ddysgu Cymraeg. Bydd hefyd yn ymroi i sicrhau bod Cymraeg Gwaith yn gallu dychwelyd i'w lefel weithredu cyn COVID-19 er mwyn cefnogi gwaith i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymysg gweithluoedd sectorau penodol.

Bydd y Ganolfan yn parhau i ddatblygu ei phartneriaeth ffurfiol gyda *Say Something in Welsh* i gynyddu'r arlwy a'r dewis sydd ar gael i'r rheiny sydd eisiau dysgu Cymraeg.

Bydd adolygiad cyflym o'r Ganolfan yn cael ei gwblhau yn ystod 2021-22 ac yn cynnig argymhellion ar gyfer darpariaeth Dysgu Cymraeg o 1 Awst 2022 ymlaen.

Bydd gwaith yn digwydd hefyd i addasu adnoddau Dysgu Cymraeg y Ganolfan i'w defnyddio mewn ysgolion ac addasu hyfforddiant Cymraeg Gwaith i fod yn addas ar gyfer athrawon.

### Adnoddau addysgol

Byddwn ni'n parhau gyda'n rhaglen i sicrhau bod adnoddau addysgol Cymraeg a dwyieithog  ar gael i gefnogi holl feysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd 3-16 oed ynghyd â chymwysterau 14-19 oed. Bydd gwaith hefyd yn parhau i sefydlu isadeiledd a fydd yn sicrhau y caiff adnoddau eu darparu yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd yn y dyfodol.

### Athrawon

Mae cyrraedd targedau 2021 ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon a all addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn heriol mewn cyfnod o newidiadau mawr i'r gyfundrefn addysg.

Rydym wedi datblygu nifer o gynlluniau newydd i fynd i'r afael â'r her e.e. cynllun pontio i ddenu mwy o athrawon i addysgu yn yr uwchradd a chymhelliant *Iaith Athrawon Yfory* ar gyfer y rheiny sy'n hyfforddi i fod yn athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd y rhain yn parhau yn ystod 2021-22.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i gyd-ddrafftio cynllun 10-mlynedd i gynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Byddwn ni'n gweithredu argymhellion adroddiad *Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg – canfyddiadau arolwg*. Wrth wneud hyn, byddwn ni'n talu sylw penodol i ddatblygu cymunedol ac economaidd a'r Gymraeg ac yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd newydd a ddaw i'n rhan yn sgil COVID-19 i gynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

### Defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y Llywodraeth

O ran ein strategaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg oddi mewn i'r Llywodraeth, *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*, y camau nesaf fydd parhau weithredu blaenoriaethau pum mlynedd cyntaf y strategaeth, sef y 10 Amcan a Cham Gweithredu ar gyfer 2020-2025.

### Safonau'r Gymraeg

Byddwn ni'n parhau gyda'r rhaglen dreigl i ddod â sectorau a chyrff eraill o dan Safonau.

## Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

### Yr economi

Byddwn ni'n cydweithio'n eang gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ar gyfres o gamau gweithredu o ganlyniad i'n Bwrdd Crwn ar yr Economi. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar gyfraniad posibl mudiadau cymunedol a chydweithredol i ddyfodol y Gymraeg a nifer fawr o elfennau eraill.

### Technoleg ddigidol

Byddwn ni'n adeiladu ar ein cynnydd hyd yma gyda'n *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg*. Yn ystod 2021-22, byddwn ni'n parhau i wella darpariaeth technoleg lleferydd Cymraeg ac yn buddsoddi mewn peiriant cyfieithu arbenigol a fydd yn gymorth i gynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Byddwn ni hefyd yn parhau i weithio gyda chwmnïau i yrru faint o dechnoleg Cymraeg maen nhw'n eu creu. Byddwn ni'n defnyddio'r system gaffael cyhoeddus gyda'r bwriad o yrru'r farchnad am feddalwedd ddwyieithog.

### Seilwaith ieithyddol

Byddwn ni'n ymgynghori ar ein polisi seilwaith ieithyddol drafft hyd nes yr haf. Mae 'Seilwaith ieithyddol' yn cynnwys corpora, geiriaduron ac adnoddau terminoleg, a'r holl waith ymchwil a safoni sy'n mynd ymlaen er mwyn galluogi'r adnoddau hyn i dyfu a datblygu. Nod y polisi yw ei gwneud hi'n haws i bawb wybod ble i droi wrth chwilio am gefnogaeth wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ystod ail hanner y flwyddyn, byddwn ni'n canolbwyntio ar ddadansoddi'r ymatebion a datblygu'n polisi terfynol.

## Cymru a'r byd ehangach

Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ar y llwyfan rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys chwarae rôl arweiniol mewn rhwydweithiau rhyngwladol ar gynllunio ieithyddol megis y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD), y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a Degawd Ieithoedd Brodorol 2022-32 UNESCO.

Byddwn ni'n parhau i bwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg a'n dwyieithrwydd wrth i ni hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol fel rhan o'n Strategaeth Ryngwladol.

Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r Urdd ar Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru 2021 – thema eleni fydd Cydraddoldeb i Ferched, er mwyn amlygu'r anghydraddoldebau sy'n parhau i wynebu merched dros y byd heddiw.

## Cydraddoldeb o ran hil ac ethnigrwydd

Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ystod y gwanwyn a'r haf. Bydd y Cynllun yn cynnwys nifer o gynigion er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb hil ac ethnigrwydd yn dod yn rhan mwy canolog fyth o'n gwaith. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr agenda gwrth-hiliaeth yn cael ei mabwysiadu'n drylwyr yn holl waith ein partneriaid sy'n gweithio gyda ni i weithredu *Cymraeg 2050*.

## Ymchwil ac ystadegau

Mae'r cyfrifiad yn digwydd ym mis Mawrth 2021. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n gyfrifol am y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, yn bwriadu cyhoeddi holl ddata Cyfrifiad 2021 rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023.

Byddwn ni'n parhau i ehangu ar ein sail dystiolaeth ymchwil ac ystadegau fel sylfaen i weithredu *Cymraeg 2050* yn ystod y cyfnod hwn.